COFNOD O BENDERFYNIADAU CYFARFOD PWYLLGOR Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR / O BELL AR 23 CHWEFROR 2023, AM 10.00 O'R GLOCH

Presennol

Y Cynghorydd – T THOMAS – Cadeirydd

Y Cynghorwyr

P Ford, RM Granville, RJ Smith, DT Harrison, ML Hughes, RM James, IM Spiller, C Walter, ED Winstanley

Swyddogion:

R Keepins, M Morgans, S Griffiths

Ymddiheuriadau am absenoldeb

S Aspey

Datganiadau o fuddiant

Dim

Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 20/10/2022 fel cofnod gwir a chywir.

| Teitl yr Adroddiad | **Diweddariad ar y Llwyfan Digidol a Phorth yr Aelodau** |
|---|---|
| Y Penderfyniadau Wnaed | 1. Argymell cynnwys taflen gyda Bil y Dreth Gyngor fyddai'n hyrwyddo'r llwyfan digidol (Fy Nghyfrif), yn enwedig y swyddogaeth 'Report It'.<br><br>2. Bod Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd a'r Pennaeth Partneriaethau yn sefydlu gweithgor i symud ymlaen gyda datblygu Porth yr Aelodau. Argymhellwyd bod aelodaeth y gweithgor yn cynnwys gwirfoddolwyr o Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn ogystal ag Arweinwyr Grwpiau. Cynigiodd yr Aelodau canlynol eu hunain i eistedd ar y gweithgor hwn: Y Cyng Tim |

| | |
|---|---|
| | Thomas, y Cyng Martin Hughes, y Cyng Graham Walter, a'r Cyng Ian Spiller.<br><br>3. Gofynnodd y Pwyllgor am gael gweld y ddau argymhelliad ar bymtheg a ddeilliodd o'r adolygiad o system atgyfeirio flaenorol yr aelodau a gynhaliwyd yn 2019.<br><br>4. Gofynnodd y Pwyllgor ymhellach i Reolwr y Gwasanaethau Democrataidd ofyn i'r holl Aelodau e-bostio ynghylch unrhyw anghenion hyfforddi yn ymwneud â'r porth fel y gellir trefnu'r rhain. |
| Teitl yr Adroddiad | **Templed Diwygiedig yr Adroddiad Corfforaethol** |
| Y Penderfyniad Wnaed | 1. Diweddaru'r templed i ymgorffori'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol a goblygiadau'r Iaith Gymraeg, dolenni i'r Newid yn yr Hinsawdd a Diogelu yn ogystal â Chrynodeb Gweithredol fel y gall y darllenydd a'r sawl sy'n penderfynu ddod yn gyfarwydd â chynnwys yr adroddiad yn gyflym.<br><br>2. Bod y templed arfaethedig hefyd i gynnwys y newidiadau a ganlyn:<br><br>• Cyfuno'r 'Cysylltiad â'r amcanion Llesiant Corfforaethol' â 'goblygiadau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol'.<br>• Symud 'Effaith ar Fframwaith Polisi a Rheolau Gweithdrefn' i frig yr adroddiad.<br>• Symud manylion 'Perchennog yr Adroddiad/Cyfarwyddwr Corfforaethol' a'r 'Swyddog Cyfrifol' i frig yr adroddiad.<br><br>3. Bod y templed diwygiedig i gael ei ddefnyddio ar gyfer yr holl adroddiadau a gyflwynir i Bwyllgorau o 18 Mai 2023 yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor. |
| Teitl yr Adroddiad | **Rhaglen Waith i'r Dyfodol Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd** |
| Y Penderfyniad Wnaed | 1. Y bydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn cyflwyno Blaenraglen Waith i arwain ei drafodaethau.<br><br>2. Yn ogystal â'r eitemau a amlinellwyd yn Atodiad A yr adroddiad, cytunodd yr aelodau i ychwanegu'r eitemau a ganlyn:<br><br>• Ystyried cyflwyno Protocol Arfer Da ar gyfer Mynychu Cyfarfodydd o Bell.<br>• Ystyried a allai'r Pwyllgor dderbyn adroddiad blynyddol (yn ei gyfarfod ym mis Hydref) ar weithrediad y Cyfansoddiad; a, |

| | |
|---|---|
| | • Bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i oblygiadau unrhyw gynigion newydd gan lywodraeth y DU megis Diwygio Etholiadol er mwyn penderfynu sut mae'r Awdurdod yn ymateb i hyn. |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |